

# Memorandwm gan

## Archwilydd Cyffredinol Cymru

## **Cloriannu gwaith archwilio gwerth am arian ers datganoli**

## *Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

Medi 2004

# Cloriannu gwaith gwerth am arian ers datganoli

## Cyflwyniad

1. Ym mis Medi 1999, yng nghyfarfod ffurfiol cyntaf Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol a oedd newydd ei sefydlu, cyflwynais dri opsiwn i'r Pwyllgor ar gyfer swm y gwaith gwerth am arian y byddwn yn ei wneud efallai yn ystod y flwyddyn ganlynol. Dewisodd y Pwyllgor yr opsiwn â'r gost uchaf (£1 filiwn, yn cynnwys TAW). Roedd hwn yn arwydd calonogol iawn o'r pwys yr oedd y Pwyllgor, ar ran y Cynulliad, yn ei roi ar waith o'r fath. Roedd hefyd, wrth gwrs, yn arwydd a groesawyd o gred y Pwyllgor yn ein gallu i'w gyflawni ac wrth wneud hynny ddangos y posibiliadau ar gyfer gwelliannau gweinyddol ac arbedion ariannol.
2. Roedd hynny bum mlynedd yn ôl ac ers hynny mae'r Pwyllgor, yn ogystal â chynnal ei ymchwiliadau ei hun mewn ffordd rymus, wedi parhau i ddangos ei gefnogaeth i'n gwaith. Bydd cyfarfod y Pwyllgor ar 30 Medi 2004, pan fyddaf yn cyflwyno fy amcangyfrif o'r gyllideb a'r rhaglen gwerth am arian a awgrymir ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol, yn dynodi trobwynt. Y rheswm am hyn yw bod swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol i gynyddu'n sylweddol o fis Ebrill 2005 yn dilyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) a chreu Swyddfa Archwilio Cymru a fydd yn uno'r gwaith o archwilio'r Cynulliad, llywodraeth leol a chyrff iechyd.
3. Yn erbyn y cefndir hwnnw, ynghyd â Swyddfa Gydymffurfio'r Cynulliad, roeddem o'r farn bod hwn yn gyfle da i gloriannu'r hyn y mae'r Pwyllgor Archwilio wedi'i gyflawni ers creu'r Cynulliad, a hefyd i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y trefniadau ar gyfer gwneud gwaith dilynol ar argymhellion archwilio'r Pwyllgor ar ôl i'r Llywodraeth ymateb yn ffurfiol i adroddiadau'r Pwyllgor ei hun. Rwyf wedi canolbwytio ar ein gwaith gwerth am arian ond nid yw hynny'n tanseilio pwysigrwydd y gwaith archwilio ariannol sy'n gallu bod yn fuddiol iawn, fel y dangoswyd gan ddigwyddiadau Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (gweler paragraffau 18 ac 19 isod).

## Gwaith Gwerth am Arian Archwilydd Cyffredinol Cymru

4. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn gwneud gwaith gwerth am arian o dan a100(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 sy'n nodi y gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnwyl archwiliadau i ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ffordd y mae'r Cynulliad [a chyrff cysylltiedig] wedi defnyddio ei adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau. O dan ddarpariaethau eraill a100, ni all yr Archwilydd Cyffredinol gwestiynu rhinweddau

amcanion y polisi; fel archwiliwyr, mae gennym ddiddordeb mewn gweithredu polisi yn hytrach na'i lunio.

5. Ers creu swydd yr Archwilydd Cyffredinol, rwyf wedi cyhoeddi 29 o adroddiadau gwerth am arian, a restrir yn Atodiad A. Caiff y gwaith o ddewis pynciau ei seilio ar ymgynghoriad â'r Pwyllgor Archwilio bob hydref. Cyhoeddwyd adroddiadau ar draws yr ystod lawn o weithgareddau'r Cynulliad – gweler Ffigur 1 sy'n dangos nifer yr adroddiadau a gyhoeddwyd o dan bob un o bortffolios cyfrifoldeb presennol Llywodraeth y Cynulliad. (Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn y maes iechyd yn adlewyrchu'r gyfran o gyfanswm cyllideb y Cynulliad y mae'n rhoi cyfrif amdani – tua thraean.) O fewn pob maes, mae'r pwyllgor archwilio wedi craffu ar waith nifer o sefydliadau gwahanol. Er enghraifft, roedd y tri adroddiad a gyhoeddwyd ym maes Diwylliant, Chwaraeon a'r iaith Gymraeg yn archwilio Cadw, Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru.

**Ffigur 1: Nifer adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd, fesul pwnc**

<i>Portffolio</i>	<i>Cyllideb ddangosol y Cynulliad 2005- 06 £m</i>	<i>Nifer yr astudiaethau</i>
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	4,612	9
Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad	447	2
Addysg a Dysgu Gydol Oes	1,280	3
Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth	1,382	7
Cyflawnder Cymdeithasol ac Adfywio	448	1
Diwylliant, Chwaraeon a'r iaith Gymraeg	127	3
Gweinyddu'r Cynulliad ac Arall	178	4
<b>CYFANSWM</b>	<b>29</b>	

*Noder:* caiff portffolio llywodraeth leol y Cynulliad ei eithrio oherwydd, cyn i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) ddod i rym, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r sector llywodraeth leol

6. Nid yw'r gwaith gwerth am arian yn gyfyngedig i baratoi adroddiadau a gyhoeddir. Yn ogystal â'r cymorth a rown i'r Pwyllgor Archwilio (a ystyrrir yn yr adran ganlynol), rydym yn buddsoddi adnoddau mewn gwaith monitro parhaus o'r maes archwilio er mwyn i ni allu gwneud penderfyniadau hyddysg o ran ym mhle i dargedu ein hymdrehigion gwerth am arian; gallaf sicrhau, cyhyd ag y bo'n ymarferol, fy mod yn rhoi atebion llawn i ohebwyr (derbyniwyd 78 o lythyrau yn 2003-04, yr oedd bron hanner ohonynt oddi wrth Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau'r Senedd) sy'n codi materion yngylch gwerth am arian gyda mi; ac

rwyf wedi paratoi nifer o bapurau ad hoc a nodiadau diweddar i'w hystyried gan y Pwyllgor, yn aml ar ei gais penodol ac mewn rhai achosion yn arwain at sesiynau cymryd tystiolaeth. Ymhlieth y rhain mae:

- archwilio awdurdodau lleol a chyrff a noddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru (Medi 1999)
  - Hawliau Mynediad Archwilydd Cyffredinol Cymru (Mawrth 2001)
  - Nodyn diweddar ar brosiect adeiladu'r Cynulliad (Tachwedd 2001)
  - Themâu caffael (Mawrth 2002)
  - Archwiliad pellach o'r materion sy'n codi yn sgil cael gwared ar ysbty canolbarth Cymru (Ionawr 2004)
7. Yn yr un modd ag y mae meysydd gwariant y Cynulliad a sefydliadau yr wyf wedi cyflwyno adroddiadau arnynt wedi amrywio, mae themâu fy archwiliadau wedi amrywio hefyd. Dengys Ffigur 2 isod sut yr wyf wedi cynhyrchu rhai o'r prif adroddiadau a gyhoeddwyd ar bob un o'r prif feysydd posibl ar gyfer canolbwyt yr archwiliad.

**Ffigur 2: Canolbwyt yr archwiliad – enghreiffiau o adroddiadau a gyhoeddwyd**

<i>Canolbwyt yr archwiliad</i>	<i>Enghreiffiau o adroddiadau</i>
Cyflwyno rhagleni a gwasanaethau	<p><i>Gwarchod a chadw'r dreftadaeth adeiledig yng Nghymru</i></p> <p><i>Esgeulustod clinigol yn y GIG yng Nghymru</i></p> <p><i>Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: mwyhau'r buddion i Gymru</i></p> <p><i>Adnewyddu tai y sector preifat yng Nghymru</i></p> <p><i>Digolledu ffermwyr am dwbercwlosis buchol</i></p> <p><i>Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: Rheolaeth Ariannol o Brosiectau Partneriaeth ac Arloesedd a Datblygiad</i></p> <p><i>Rheoli absenoldeb oherwydd salwch gan ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru</i></p>
Caffael asedau a gwasanaethau	<p><i>Trefniadau adeiladau Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i></p> <p><i>Caffael yn y sector addysg bellach yng Nghymru</i></p> <p><i>Osiris: y contract Menter Arian Preifat ar gyfer technoleg gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru</i></p> <p><i>Caffael meddyginaethau gofal sylfaenol</i></p>
Rheoli asedau	<p><i>Rheoli ystâd y GIG yng Nghymru</i></p> <p><i>Rheoli a darparu gwasanaethau glanhau ysbytai yng Nghymru</i></p> <p><i>Rheoli'r casgliadau yn Amgueddfeidd ac Orielau Cenedlaethol Cymru</i></p>
Ail-leoli a gwaredu asedau ac adnoddau	<p><i>Adnewyddu a gwaredu eiddo a ddelir gan y GIG yng Nghymru</i></p> <p><i>Gwaredu ysbyty Canolbarth Cymru</i></p>

## Archwiliadau'r Pwyllgor Archwilio

8. Un o brif gryfderau'r trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian mewn sefydliadau archwiliadig yw gallu'r Pwyllgor i gymryd tystiolaeth lafar oddi wrth dystion, yn gyhoeddus, ar sail y canfyddiadau cytûn a nodir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, a'r gofyniad deddfwriaethol i Lywodraeth y Cynulliad ymateb yn ffurfiol i adroddiadau dilynol y Pwyllgor ei hun.
9. Ar ôl y cyfarfod ar 30 Medi 2004 bydd Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad wedi cwrdd 45 o weithiau. Mae wedi cymryd tystiolaeth ar yr holl adroddiadau gwerth am arian a gyhoeddwyd ac a restrir yn Atodiad A, ac eithrio'r ail, ar fygythiad y Mileniwm i TG. Ar gyfer rhai adroddiadau mae wedi cymryd tystiolaeth mewn mwy nag un cyfarfod, yn enwedig wrth gynnal ymchwiliadau i'r sector iechyd ac addysg lle y bu'n ddefnyddiol i ganolbwytio ar faterion o safbwyt y ddau yn y canol sy'n gweithio i gyflawni nodau

strategol y Cynulliad – fel Adran GIG Cymru – yn ogystal â'r rhai sy'n gyfrifol am ddosbarthu gwasanaethau – fel ymddiriedolaethau'r GIG.<sup>1</sup>

10. Wrth gynnal ei archwiliadau, mae'r Pwyllgor wedi cymryd tystiolaeth oddi wrth ystod eang o dystion. Y prif dystion fu Swyddogion Cyfrifyddu o gyrff cyhoeddus, fel Ysgrifennydd parhaol y Cynulliad, Cyfarwyddwr GIG Cymru a Phrif Weithredwyr o gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad fel Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa a Chyngor Celfyddyau Cymru. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor wedi holi cynrychiolwyr o'r diwydiant fferyllol ac, ar dri achlysur<sup>2</sup>, mae wedi cymryd tystiolaeth oddi wrth pobl sydd wedi chwarae rhan sylweddol yn y materion dan sylw ond sydd wedi symud ymlaen neu wedi ymddeol ers hynny.
11. Hyd yn hyn mae ymchwiliadau'r Pwyllgor wedi arwain at gyhoeddi 38 o adroddiadau, ar faterion ym ymwneud ag archwiliadau ariannol yn ogystal â gwerth am arian. Yn ei adroddiadau mae'r Pwyllgor wedi gwneud 414 o argymhellion; o'r 387 o argymhellion y rhoddwyd ateb iddynt gan Lywodraeth y Cynulliad, derbynwyd 383 a derbynwyd y pedwar sy'n weddill yn rhannol.

## Olrhain y broses o weithredu'r argymhellion

12. O dan reolau sefydlog y Cynulliad, mae'n ofynnol i Lywodraeth y Cynulliad ymateb i adroddiadau'r Pwyllgor o fewn chwe wythnos (30 diwrnod) o'r adeg y'u cyhoeddwyd. Mae'r ymatebion hyn yn canolbwytio ar argymhellion y Pwyllgor. Mae'n arfer gan y Pwyllgor i ofyn am fy nghyngor ar ddigonolrwydd yr ymateb – p'un a yw'n mynd i'r afael ag ysbryd yn ogystal â llythyr yr argymhellion – ac rwyf yn hapus i wneud hyn.
13. Nid yw hyn yn dynodi diwedd y broses, foddy bynnag, oherwydd mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi rhoi system ar waith ar gyfer monitro'r broses ddilynol o weithredu argymhellion yr archwiliad. Mae cynnydd y broses weithredu yn eitem sefydlog ym mhob un o gyfarfodydd chwarterol Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cynulliad, a gadeirir gan gyfarwyddwr anweithredol o'r Cynulliad. Mae'r rhai sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn cynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol, cynrychiolwyr archwiliad mewnol a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru. Yn seiliedig ar waith monitro a wneir gan Swyddfa Gydymffurfio'r Cynulliad, rhoddir gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am holl argymhellion parhaus y Pwyllgor Archwilio, gan nodi p'un a ydynt wedi'u cyflawni bellach

---

<sup>1</sup> Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu'r ymagwedd hon wrth gynnal archwiliadau, er enghraifft, *Addysg bellach yng Nghymru; Esgeulustod clinigol yn y GIG yng Nghymru; a Rheoli absenoldeb oherwydd salwch gan ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru*

<sup>2</sup> Morglawdd Bae Caerdydd, Cyngor Celfyddyau Cymru: Canolfan y Celfyddyau Gweledol, ac adroddiad archwilio ariannol ar daliad afreolaidd a wnaed i gyn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

(hy eu gweithredu yn llawn) ai peidio; os nad ydynt wedi'u cyflawni, mae angen pennu dyddiad targed ar gyfer eu gweithredu.

14. Fel Archwilydd Cyffredinol, mae gennyf i hefyd ddiddordeb brwd mewn gwneud gwaith dilynol ar y broses o weithredu argymhellion yr archwiliad – a ph'un a yw hyn wedi cyfrannu at wasanaethau cyhoeddus gwell yng Nghymru. Ar fy rhan, felly, mae staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cydweithio â'r Swyddfa Gydymffurfio er mwyn asesu p'un a yw'r wybodaeth chwarterol am gynnydd y broses weithredu y mae cyrff archwiliedig yn gofyn amdani yn ddigonol – yn enwedig, p'un a ddarparwyd digon o wybodaeth i ystyried bod argymhellion wedi'u cyflawni. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn rheolaidd yn y ffordd hon fel sail ar gyfer barnu p'un a oes angen gwneud gwaith dilynol ar unrhyw feysydd. Gall y gwaith dilynol hwn arwain at gyhoeddi adroddiadau pellach, fel fy adroddiadau ar *Gaffael yn y sector addysg bellach yng Nghymru*, a ddilynodd archwiliad y Pwyllgor o adroddiad gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol (a gyhoeddwyd yn fuan cyn creu'r Cynulliad) ar amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar y sector hwn, ac ar *Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: mwyhau'r buddion i Gymru*, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Bydd y gwaith a ddechreuir gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn ddiweddarach eleni yn cwmpasu p'un a yw Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dysgu'r gwersi, ac wedi gweithredu argymhellion yr archwiliad, o'i gefnogaeth ariannol blaenorol i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol.

## **Effaith y gwaith archwilio**

15. Un o brif nodau fy ngwaith yw ychwanegu gwerth i'r rhai a archwilar gennyf. I'r perwyl hwnnw, fel y Pwyllgor, fy nod yw gwneud argymhellion i helpu cyrff archwiliedig i wella eu perfformiad a sicrhau gwell gwerth am arian, gan gynnwys y posibiliadau o sicrhau arbedion ariannol. Yn ystod fy mhym mlynedd fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae fy ngwaith, a gefnogwyd ac a atgyfnherthwyd gan y Pwyllgor Archwilio, wedi cyflawni arbedion gwirioneddol hyd yn hyn o tua £36 miliwn ac wedi nodi arbedion possibl pellach o dros £110 miliwn.
16. Mae fy ngwaith wedi cael effaith ariannol mewn nifer o ffyrdd. Mae rhai wedi dod ar ffurf arbedion arian parod uniongyrchol lle mae archwiliadau wedi nodi posibiliadau i wella rheolaeth ariannol neu lle y gellir cyflawni mwy o refeniw. Mewn achosion eraill, mae'r effaith ariannol yn adlewyrchu gwelliannau o ran effeithlonrwydd, fel darparu'r un gwasanaeth am lai o arian neu mewn llai o amser. Mae Ffigur 3 yn nodi amrywiaeth yr effeithiau ariannol a gafodd fy adroddiadau.

**Ffigur 3: Enghreifftiau o effeithiau ariannol Adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru**

<b><i>Math o effaith ariannol</i></b>	<b><i>Manylion</i></b>
Gwario llai	<p>Canfu <i>Digolledu ffermwyr am dwbercwlosis buchol yng Nghymru [Gorffennaf 2003]</i> fod y Cynulliad wedi talu £2.6 miliwn amcangyfrifedig yn fwy mewn taliadau iawndal nag y byddai wedi gwneud pe byddai'r system brisio wedi bod yn fwy cyson â gwerth y farchnad.</p> <p>Nododd <i>Trefniadau adeiladau Cynulliad Cenedlaethol Cymru [Tachwedd 2000]</i> arbedion posibl yn yr hirdymor o £350,000 pe byddai'r Cynulliad yn pwrcasu prydles hir adeilad y Pierhead yn hytrach na pharhau i dalu rhent. O ganlyniad cymerodd y Cynulliad y cam gweithredu hwn a argymhellwyd.</p>
Prynu'n well	<p>Amlygodd <i>Caffael meddyginaethau gofal sylfaenol [Mawrth 2003]</i> y gellid bod wedi arbed hyd at £50 miliwn drwy gontactau canolog ar gyfer tua 300 o feddyginaethau a bwrcaswyd yn 2001.</p> <p>Canfu <i>Caffael yn y Sector Addysg Bellach [Medi 2001]</i> er bod arferion caffael gwell wedi arwain at arbedion o £600,000, bod arbedion arian parod rheolaidd sylweddol uwch yn bosibl o hyd, gwerth o leiaf £2.5 miliwn y flwyddyn. Ym mis Rhagfyr 2003 nododd ELWa arbedion arian parod cronnol ar gyfer y ddwy flynedd hyd at Awst 2003 o £3.65 miliwn.</p>
Atal/lleihau gwastraff	<p>Canfu <i>Rheoli ystâd GIG yng Nghymru [Tachwedd 2001]</i> fod un rhan o bump o'r ystâd yn cael ei thanddefnyddio a bod tri y cant ohoni yn wag.</p> <p>Amcangyfrifais y gellid arbed tua £25 miliwn y flwyddyn drwy reoli eiddo nas defnyddir yn ddigonol yn well.</p> <p>Amcangyfrifodd <i>Adnewyddu a gwaredu eiddo a ddelir gan y GIG yng Nghymru [Gorffennaf 2002]</i> y gellid gwerthu gwerth £30 miliwn o eiddo a danddefnyddir ac sy'n anaddas ac y gellid arbed £1 filiwn arall drwy wella'r broses waredu. Ym mis Mawrth 2004 nododd Adran GIG Cymru dderbyniadau o bron £26 miliwn, gan amcangyfrif £4 miliwn bellach.</p>
Cynyddu incwm/adennill cronfeydd dyledus	<p>Amlygodd gwaith archwilio ariannol yn <i>Awdurdod Datblygu Cymru</i> y gellid adennill tua £1.7 miliwn am waith nas cyflawnwyd ond y talwyd amdano.</p> <p>Amcangyfrifodd <i>Mwyhau'r incwm mwyaf oddi wrth daliadau presgripsiynau [Tachwedd 2000]</i> fod £15 miliwn y flwyddyn yn cael ei golli o ganlyniad i eithrio unigolion, nad ydynt yn bodloni'r meini prawf perthnasol, rhag talu am bresgripsiynau. Dangosodd fy adroddiad ar <i>Gyllidau GIG Cymru 2004</i> fod cynnydd wedi bod wrth leihau twyll fferyllol o £15 miliwn i £7 miliwn.</p>

17. Fy'r ôl yw nodi'r posibiliadau o ran arbedion ac argymhell sut y gellir eu cyflawni pan gânt eu cymeradwyo a'u gwella gan Adroddiadau'r Pwyllgor ac ymatebion y Cynulliad. Y corff archwiliad sy'n gyfrifol am sicrhau'r arbedion hynny a gall yr arbedion llawn gymryd amser i gronni. Mewn llawer o achosion ni ellir gweithredu argymhellion dros nos ac efallai y bydd sylweddoli arbedion yn cymryd hyd yn oed yn hwy. Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn cymryd amser i sylweddoli elw ariannol. Er enghraift, fel y nodir yn fy adroddiad ar *Esgeulustod Clinigol yn y GIG* [Chwefror 2001], gall fod bwlc'h sylweddol rhwng achosion o esgeulustod honedig a setliad ariannol dilynol; bydd oedi cyfatebol rhwng gweithredu fy argymhellion a gynlluniwyd i leihau'r tebygolrwydd o achosion o esgeulustod a'r effaith ddilynol ar gyllidau'r GIG. Serch hynny, yn seiliedig ar waith monitro Swyddfa Gydymffurfio'r Cynulliad, adroddiadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor oddi wrth gyrrff archwiliadig a'n gwaith archwilio pellach ein hun, mae cyrff archwiliadig, fel y nodwyd

uchod, hyd yn hyn wedi arbed tua £35 miliwn, ac mae trefniadau ar waith i gyflawni llawer mwy yn y dyfodol.

18. Yn aml gall gwaith archwilio gael effaith gadarnhaol sylweddol na ellir ei mesur yn nhermau ariannol. Mae ein gwaith archwilio ariannol wedi arwain at welliannau niferus i systemau rheolaeth ariannol cleientiaid. Er enghraifft, ar ôl ein harchwiliad a'r adroddiad ar gyfrifon agoriadol Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant, cymerodd y Cyngor nifer o fesurau i unioni'r gwendidau sylweddol mewn arferion caffael a nodwyd gennym. Mae fy ngwaith a gyhoeddwyd hefyd yn gwneud argymhellion sy'n arwain at welliannau o ran darparu gwasanaethau, arferion gwaith gwell a rheolaeth well. Er enghraifft:
  - Amlygodd *Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol* [Tachwedd 2001] nifer o wersi allweddol a oedd yn ymwneud â'r ffordd y gallai Cyngor y Celfyddydau wella ei asesiad o risgiau ac atgyfnerthu ei waith o fonitro prosiectau'r Loteri, fel pwysigrwydd bod yn effro i risgiau allweddol (niferoedd ymwelwyr yn yr achos hwn) a rhoi cynlluniau wrth gefn digonol ar waith rhag ofn y bydd risgiau yn cael eu gwireddu;
  - Arweiniodd *Gwarchod a chadw'r dreftadaeth adeiledig yng Nghymru* [Hydref 1999] at argymhellion ar wella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am eiddo cymorth grant y gallant ymweld â hwy;
  - Ymchwiliodd *Osiris: Contract y Fenter Cyllid Preifat (PFI) ar gyfer Technoleg Gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru* [Hydref 2002] i'r contract PFI cyntaf ar gyfer seilwaith TG yn y Deyrnas Unedig. Canfu, am nifer o resymau (gan gynnwys creu'r Cynulliad ei hun) fod cyfanswm cost ragamcanol y contract yn sylweddol uwch na'r hyn a ragdybiwyd yn wreiddiol. Tanlinelloedd yr adroddiad bwysigrwydd rheoli risgiau yn gywir wrth ymdrin â mentrau cyllid preifat. (Bydd yr adroddiad y mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru newydd ei ddechrau ar brosiect Merlin, olynnydd Osiris, yn ystyried y cynnydd a wnaed gan y Cynulliad ar y pwnc hwn.)
19. Yn aml, nid yw ein heffeithiau yn gyfyngedig i'r sefydliad a archwili'r yn unig. Mae adroddiadau ar faterion unigol yn aml yn arwain at newid ehangach gan fod llawer o argymhellion yn gymwys ac yn berthnasol i nifer o sefydliadau. Er enghraifft, canfu fy adroddiadau yn sgîl fy ngwaith archwilio ariannol ar Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant wendidau difrifol o ran llywodraethu a rheoli. Mae'r gwersi a'r argymhellion a nodir yn gymwys i ystod eang o gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Amlygodd adroddiad y Pwyllgor ar daliad afreolaidd o £30,000 i aelod o staff a adawodd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru y gwersi i'w dysgu o'r digwyddiad a gwnaeth nifer o argymhellion i'r Amgueddfa, y Cynulliad a'r sector cyhoeddus ehangach.

Hefyd, mae gan fy ngwaith ar *Digolledu ffermwyr am dwbercwlosis buchol* oblygiadau clir i adolygiad Defra/y Cynulliad o drefniadau digolledu ar gyfer pob rhywogaeth a chlefyd.

## Casgliad

20. I grynhoi: mae gwaith y Pwyllgor Archwilio, yn dilyn ein harchwiliadau gwerth am arian, wedi arwain at arbedion cytûn o tua £36 miliwn ers 1999, gyda'r posibilrwydd o nodi £110 miliwn arall. Arian yw hwn a ryddhawyd ar gyfer gwasanaethau eraill Llywodraeth y Cynulliad. Cyflwynwyd llawer o welliannau eraill hefyd o ganlyniad i argymhellion y Pwyllgor ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyflawnwyd hyn ar gyfer cyfanswm cost amcangyfrifedig yr Archwilydd Cyffredinol o fis Gorffennaf 1999 i fis Mawrth 2005 sef £15 miliwn, a gwaith Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o dan ei gyfarwyddyd.

**John Bourn**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

*20 Medi 2004*

**Adroddiadau gwerth am arian a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru**

<i>Adroddiad</i>	<i>Dyddiad cyhoeddi</i>
<i>Gwarchod a chadw'r dreftadaeth adeiledig yng Nghymru</i>	Hydref 1999
<i>Bygythiad y Mileniwm: A yw Cymru'n barod?</i>	Rhagfyr 1999
<i>Asiantaeth Ddatblygu Cymru: Rheoli'r broses o greu awdurdod estynedig a chwilio am arbedion yn y dyfodol</i>	Mai 2000
<i>Asiantaeth Ddatblygu Cymru: Cymorth i fusnesau cynhenid yng Nghymru</i>	Mai 2000
<i>Morllawdd Bae Caerdydd</i>	Gorffennaf 2000
<i>Trefniadau adeiladau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i>	Tachwedd 2000
<i>Mwyhau'r incwm oddi wrth daliadau presgripsiynau</i>	Tachwedd 2000
<i>Esgeulustod clinigol yn y GIG yng Nghymru</i>	Chwefror 2001
<i>Addysgu a hyfforddi gweithlu iechyd proffesiynol y dyfodol i Gymru</i>	Mawrth 2001
<i>Sicrhau dyfodol Bae Caerdydd</i>	Mehefin 2001
<i>Caffael yn y sector addysg bellach yng Nghymru</i>	Medi 2001
<i>Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol</i>	Tachwedd 2001
<i>Rheoli ystâd GIG yng Nghymru</i>	Tachwedd 2001
<i>Parhau i adfywio Bae Caerdydd</i>	Mai 2002
<i>Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: mwyhau'r buddion i Gymru</i>	Mehefin 2002
<i>Adnewyddu a gwaredu eiddo a ddelir gan y GIG yng Nghymru</i>	Gorffennaf 2002
<i>Gwaredu ysbty Canolbarth Cymru</i>	Hydref 2002
<i>Osiris: y contract Menter Cyllid Preifat ar gyfer technoleg gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru</i>	Hydref 2002
<i>Adeilad newydd y Cynulliad Cenedlaethol: adroddiad diweddar</i>	Tachwedd 2002
<i>Rheoli ystâd addysg bellach yng Nghymru</i>	Chwefror 2003
<i>Caffael meddyginaethau gofal sylfaenol</i>	Mawrth 2003
<i>Rheoli a darparu gwasanaethau glanhau ysbtyai yng Nghymru</i>	Mai 2003
<i>Adnewyddu tai y sector preifat yng Nghymru</i>	Mehefin 2003
<i>Digolledu ffermwyr am dwbercwlosis buchol yng Nghymru</i>	Gorffennaf 2003
<i>ELWa – Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: rheolaeth ariannol o brosiectau partneriaeth ac arloesedd a datblygiad</i>	Medi 2003
<i>Taliadau diweddar i ffermwyr yng Nghymru</i>	Tachwedd 2003
<i>Rheoli absenoldeb oherwydd salwch gan ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru</i>	Ionawr 2004
<i>Rheoli'r Casgliadau yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru</i>	Ebrill 2004
<i>Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: cynnydd ar sicrhau buddiannau i Gymru</i>	Gorffennaf 2004

**Noder:** mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau cadarn yn sgîl ei waith archwilio ariannol, a restrir isod

<i>Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1998-99: Adroddiad Cyffredinol</i>	Mawrth 2000
<i>Awdurdod Datblygu Cymru: Cyfrifon 1999-2000</i>	Gorffennaf 2000
<i>Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cyfrif 1999-2000</i>	Ionawr 2001

<i>Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Menter Coedwigaeth Cymru: Cyfrifon 1999-2000</i>	Ionawr 2001
<i>Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: archwiliad ariannol o gyfrifon 1999-2000</i>	Mawrth 2001
<i>Cyfrifon Cryno y GIG (Cymru) 1999-2000</i>	Mawrth 2001
<i>Adroddiad ar gyfrif adnoddau cyfunol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2000-01</i>	Ionawr 2002
<i>Cyfrif Cryno Awdurdodau Iechyd yng Nghymru ar gyfer 2000-01</i>	Chwefror 2002
<i>Cyllidebau GIG Cymru 2002</i>	Mawrth 2002
<i>Adroddiad Cyffredinol ar waith archwilio ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru: 2000-01</i>	Mawrth 2002
<i>Cyfrif Cryno Awdurdodau Iechyd yng Nghymru ar gyfer 2000-01</i>	Ionawr 2003
<i>Adroddiad ar gyfrifon Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2001-02</i>	Ionawr 2003
<i>Cyllid GIG Cymru 2003</i>	Mai 2003
<i>Adroddiad Cyffredinol 2003 ar waith archwilio ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru</i>	Gorffennaf 2003
<i>Adroddiad ar gyfrifon Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2002-03</i>	Ionawr 2004
<i>Adroddiad ar gyfrifon ELWa – Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2002-03</i>	Ionawr 2004
<i>Cyllidau GIG Cymru 2004</i>	Ebrill 2004
<i>Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2004</i>	Mehefin 2004